

Dirgelwch Duvioldeb:

NEU,

875 a 47

A T H R A W I A E T H .

V

D R I N D O D;

Wedi ei datguddio mewn Dull eglur a chynnefin.
i'r Diben o wheudur Egwyddorion Crefydd
CRIST yn hyfryd, ac yn flasus, i bob Enaif
duviol, yn ddirgel ac yn gyhoedd.

DIAR. ii. 3, 5. a xvi. 16.

Os gwaeddi ar ol gwybodaeth,—yna y cei wybodaeth
Dduw. O, mor well yw cael doethineb nag aür costan
a chael deall, mwy dymunol yw nag arian.

ESAY XXX. 26.

Bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr
haul fydd faith mwy, megis llewyrch faith mwyndu.

DAN. xii. 4.

Cau ar y geiriau, a felia'r llyfr, hyd amser y diwedd: llawer
a gynnweirant, a gwybodaeth a amheir.

EPH. i. 17.

Ar i Dduw ein Harglywydd Iesu Crist,—roddi i chwi ysbryd
doethineb a datguddiad, trwy ei adnabod ef.

GAN Y PARCHEDIG

P E T E R W I L L I A M S.

CAERFYRDDIN,

MEGRAPHTYD GAN I. DANIEL, YN HEOL Y ARGENIN.

M.DCC.XCII.

Dirgelwch Duvioldeb, &c.

NID oes dim yn hwy dymunol, dim yn hwy rhagorol, na dim mor angenheidiol i'n ddiwyddiwr presennol a thragywyddol, a gwybodaeth o Dduw, a'r Dyn Iesu! canys bywyd tragywyddol ydyw, Ioan xvii. 3. Ac, megis agoriad neu allwedd i wybodaeth o Dduw, y mae'n rhaid,

Yn gyntaf, Credu bod Duw. Gwirionedd sylfaenol yw *bod* Duw: ac y mae pawb, yn gyffredinol, yn ei addef mewn geiriau, ond yn ei wadu yn eu bucheddau. Ac fe ddywed yr ysgrythur, fod ffyliaid yn y byd, ddigon ffol i ddywed yd yn eu calon, “*Nid oes un Duw.*” Felly yr oedd eni dymuniad, mae'n debyg, pa beth bynnag yr oedd eu cydwybod o'u mewn, a'r byd o'u hanguylch, yn tyfio i'r gwrthwynaeth; canys rhyddid i bechu, yn ddiwahardd, y mae plant *Adda'n chwennych!* Ac, yn ddiammeu, nid yw'r boneddigion sy'n cyfaddes eu hunsain yn *Atheistiaid*; (sef, yn addef bod Duw, ond yn gwadu'r Bibl) ddim ymhell oddiwrth bod yn *Atheistiaid*, sef, yn gwadu bod Duw! O blegid y sawl ni welant *Dduw* yn yr ysgrythur, ni chymmerant boen i *chwilio* am dano yn y creatur; (yr ymadrodd a auferir gan Paul, Act. xvii. 27. yw, *ymbafalu* am dano; ymadrodd cyffelybiaethol ydyw, perthynasol i ddynion dallyr yr oeddent hwy yn ddeillion, ond yn rhyfylgu dywed yd, “*eu bod yn gweled,*” ac am hynny yr oeddent yn ddiesgus, Ioan ix. 41. Rhuf. i. 20. Wele



Wale berygl atbeisiaeth! Och, mor druenus yw cyflwr y cyfryw ddynion! Y maent mewn perygl bob awr, heb noddfa i ffoi iddi: ni welant weithredoedd yr Arglwydd, er fod yr holl greadigaeth yn dangos mawredd y Creawdwr. Y maent yn gwadu'r ysgrythurau; ac, yn ganlynol, yn gwadu *Grist*, am yr hwn y mae'r ysgrythurau sanetaidd, i gyd, yn tystiolaethu. Ac y mae'n sicr, fod y rhai sydd, "heb Grist, heb Dduw yn y byd." Pa beth a ddywedwn ni wrth y pethau hyn? "Goleuau ein tywyllwch, ni attolygwn i ti, O Arglwydd." Yn ddiar, fe ddichon y cristion lleiaf, a fydd yn berchen-deall, brofi yn eglur, fod Duw, wrth y rheiswm a arferir gan *Paul*; "Pob ty a adeiladwyd gan ryw un, eithr yr hwn adeiladodd "pob peth yw Duw," *Heb. xi. 6.*

Yn eil; Y mae'n angenrheidiol i gredu nad oes ond un Duw. Felly y dywed *Moses*, a'r Arglwydd ei hun, "Chyw, O Israel, yr Atgлwydd eia Duw, ni, sydd ua Arglwydd," *Deut. iv. 35, 39.* a *xxii. 39.* *Efay xlii. 8.* a *xlii. 18.* Yr un modd y tyffia'r apostol, "I ni nid oes ond un Duw, sef 'y Tad," *Cor. viii. 6.* Ac se addef ein rhestrau fod un Duw yn ddigon: o blegid rhaid fod Duw yn gwbl *berffaith*, pe amgen ni allai fod yn Ddaw! Ac yn gymaint a fod yr unig wir Dduw, yn holl-gyfoethog, yn gwbl-ddedwyd, yn holl-wybodol, yn holl-bresennol, ac yn holl-alluog, pa raid wrth amryw dduwiau! Gallwn feddwl fod dynion, ac anghylion, yn fwy dedwyd dan lywodraeth un Duw, na phe buasai i ni *dilau* Dduw, neu dduwiau lawer! o blegid y mae'n anhawdd boddio dau Arglwydd, Duw a mammon. Nid da fod dau lywodraethwr yn *chwennych blaenoriant*. — Prin y cydwydd da'r frenin yn yr un deyrnas; cof pennathiaid Rhufain; ni fynsai'r naiell un achlaw iddo, na'r Hall neb gogyswch ag ef. Os amrywiau tymherau, se newidia eu cyfreithian: ac os perchir un, se gynfigenna'r llall; fel Saul wrth

“ Ddafydd a laddodd ei syrddiwn?” Y mae Duw ei hun yn eiddigus o'i ogoiant; ac y mae'n weddus hefyd iddo fod. Da y dywedodd, “ Na “ fydded i ti ddawiau eraill onid myf.”

Yn drydydd; Rhaid ystyried fod yn *Undod* y Duwdod *Drindod*, sef, tri Pherson yn un Duw, ac a elwir yn yr ysgrythur, *Tad*, *Mab*, ac *Ysbryd Glân*. Ond na feddylied y darllenyydd fod tri hanfod gwabanol, canys fe fyddai hynny yn wrthwyneb i *Undod y Duwdod*, a gadarnhawyd o'r blaen dan yr ail ben. Nagê, eithr y maent yn dri Pherson mewn un hanfod, fel corph, enaid, ac yspryd, mewn un dyn! ac y maent i gyd yn angenrheidiol, ni a wyddom, i hanfod yr holl hiliogaeth ddynol! Felly gellir dywedyd, mewn dynol iaith, fod y Tad, Mab, ac Ysbryd, yn ddull angenrheidiol o *Fod*, yn hanfod y Duwdod; eto nid dull angenrheidiol o fod Duw yn *Dduw*, eithr i fod yn *Dduw iachawd-wriaeth*; ac fel yr ydym ni yn son am dano, ac y mae a fynnom ag ef, *Salm lxxii. 25.* *Heb. iv. 13.* i Pedr i. 10. Y mae Duwdod, a *Thrindod*, megis afonydd Eden, yn un yn y ffynnon, yn amryw yn y ffrydiau! Y *Tad* yw ffynnon y Duwdod, canys Duw trwy'r Ysbryd a genhediodd y *Mab*, o Fair forwyn. Ac, fel y dywed y gredo, y mae'r Ysbryd yn “ deillio oddiwrth y *Tad* a'r *Mab*.” Fe gyffelybir y *Drindod*, hefyd, i'r cenlysg, a'r eira, a'r gwlaw; canys o'r un elsen ddwfr y deuant oll. A'r Duw a fedr dymheru yr elsen ddwfr fel y mynno, a fedr addasu ei hun at waith iachawdwriaeth; yr hyn oedd prif-ddiben y greadigaeth! Am hynny, Duw a gymmerodd nattur dyn, yn ol ei arfaeth tragywyddol, ac a'i plannodd, fel *blaguryn*, ynddo ei hun; fel y hyddai yn Iachadwr cymmwys i waredu, ac (ynghyd ag anadliad, a gweithrediad yr Ysbryd, *Salm civ. 30.*) i adferu pechaduriaid, a'u dwyn i feddianu bywyd tragywyddol. Felly y mae yr un Duw yn *Tad*, *Mab*, ac

ac *Ysbryd Glân*, ac yn gweithredu pob peth oll yn oll! 1 Cor. xii. 6.

Y mae *Ioan* yn dywedyd fod *Tri* yn tystiolaethu: ac, mewn harddwch ymadrodd, yn galw'r *Mab*, y *Gair*; o blegid trwy'r *Mab* y mae gair Duw yn dyfod i glywedigaeth dynion. Heb y *Mab*, fe fuasai gair Duw yn farwolaeth i ni: ond yn y *Mab*, “*Gair y bywyd ydyw; gras a heddwch ydyw*,” Salm xlvi. 2. Efây lvii. 19. Ioan vi. 68. Felly, nid oes niweid dywedyd fod yn y *Duwdod* *dri* *Pherson*; ond, yn unig cofio, nad yw'r tri *Pherson* ond *an Duw!* fel corph, enaid, ac ysbryd yn *un* dyn.

Yn ddiammeu, y mae'n gyffur i bob cristion gefio fod ei *Greawdwr* yn *Iachawdwr*; ac, am hynny, yn *Dad*, *Mab*, ac *Ysbryd*: canys, oni b'ai fod Duw yn *Dad*, pwy dderbyniai blant afradlon? Oni b'ai'r hyn a wnaeth y *Mab*, pa fodd y gwareddid carcharorion? Oni b'ai'r *Ysbryd* sy'n lanteiddio, pa fodd y cawsem galon newydd? — Welc, os daliwn sylw, cawn brofi gwaith y *Drindod* yn ein henaid beunydd! Cof y gair, “*Y mae fy "Nhad yn gweithio hyd yn hyn: ac yr wyf fin- nau yn gweithio.*” Y mae holl olwynion rhagluniaeth yn dirwyn gwaith iachawdwriaeth ymlaen yn ddyfal, ymhob oes; ond yng oleu yr *esfengyl* y gwelir y gwaith yn amlwg.

Nid yw'r gair *Drindod*, na'r gair *tri Pherson*, yn ymadrodd ysgrythurol, yr wyf yn cyfaddef; ac ni a ddylem wylled, wrth ddarllen neu glywed yr ymadrodd, rhag darlunio *Tri Bod gwabanol*, canys fe fyddai hynny yn hollo wrthwyneb i'r ysgrythur sydd yn tystiolaethu, mai *un Duw* sydd! Pa fodd bynnag, er fod y gair *Drindod* yn air dychymmygol; etto, gan ei fod yn air cynhwysfawr, yn hyspylu'r gwirionedd a amcenir ei gadarnhau, y mae'n ddiddadl, ei fod yn addas i w atseru: ac yr wyf yn canmol cywreinrwydd y fawl a'i dychymmygodd, a medrusrwydd y rhai a'i llun-

iodd, ac yr wif yn ei fabwyfio gyd â llawer o
 foddionrwydd. Ysgafwydd y bydd i'r rhai sy'n
 darlunio Crist *allan* o Dduw, dramgwyddo wrth
 yr ymadrodd; eithr y fawl sy'n dewis Crist yn
 Duw, ac yn addoli'r ddau yn yr Ysbryd, yn
 ddiau, a fawrygant yr Undod yn Drindod, a'r
 Drindod yn Undod! Canys *Tri yn Un*, yw ar-
 wyddocad y gair! Nid oes ond *un* Duw, sydd
 wirionedd byth; er hynny, gobeithio yr wif na's
 cyfrifir yn athrawiaeth wrthun, anysgrythurol, nac
 aresymmiol, i ddywedyd y dichon yr Hollalluog
 addasu ei hun yn gyfatterbol i'r tri enw gogo-
 neddus, *Tad, Mab, ac Ysbryd Glân*, i'r diben o
 weithredu yn gyttunol â threfn iachawdwriaeth,
 a chyflawni ei arfaeth dragwyddol ei hun fel y
 i'f oniwyd, tu dal. 4. Ond mi a wñ nad oes neb ond
 y doethimeb sydd oddi uchod, a ddichon ddehongli'r
 dirgelwch! Canys pa ddyn a adwaen bethau dyn,
 ond ysbryd dyn yr hwn sydd ynddo? Felly hefyd,
 bethau Duw nid edwyn neb ond Ysbryd Duw,
 Cor. ii. 11, 14.—Y sawl a ddysgir gan Dduw i
 weled y bendigedig Drindod yng Nghnawd y dyn,
 Crist Iesu, (pa mor ddifygiel bynnag y byddont
 enwau gysgeidiasth ddynol) hwy a fedrant dystiolaethu,
 trwy brofad, fod yr olwg arno yn adfywio
 eu henaid, yn gwresogi eu calon, ac yn ennyn eu
 cariad at Dduw, fel y gallont, gyd ag angylion,
 a holl gwmpeini'r hef, foliannu ac addoli yr hwn
 sydd yn eistedd ar yr orseddfainge, a'r Oen, yn
 dragwydd, Amen. Y Drindod yw mîr crif'nog-
 rwydd; neu, fel y dywedodd rhyw un, *Sibboleth* y
 grefydd crif'nogol ydyw! O blegiad nid oes ond
 gwir crif'nogion yn credu Duwdod Crist, a bod
 Duw yng Nghrist yn cymmodi'r byd ag ef ei
 human! A hwynt hwy a gyfrifant y Drindod fel
 eu dinas *moelfa*, a herwydd mai Duw yng Nghrist
 yw Achubydd eu henaid; ac am hynny, bod y
 Tad yn eu caru, a'r holl nefoedd o'u plaid.

In beawarydd; Mewn trefn i eglurhau dirgel-
 wch

weh y *Drindod*, y mae'n addas ystyried. Pa beth oedd y dechreuol achos i Dduw ymbarottoi ac addasu ei hun, i weithredu yn gyfattebol i'r trithi nefolaidd hynny, *Tad*, *Mab*, ac *Ysbryd Glân*? Pa fod y mae'n bosibl, gan na's gellir rhannu na lliosog i'r *Dduwdod*? Pa wedd y mae'r *Drindod* yn angenrheidiol i iachawdwriaeth? A phwy, a pha fath, yw'r personau (*neu'r galluoeedd*) cyffylltiedig yn y *Drindod*? Ac, yn ddiweddasf, dangos pa lesad a ddug athrawiaeth y *Drindod* i enaid credadyn?

Dyma'r gwirionedd, (y lawl a allo ei dderbyn derbynied) "Ein Duw ni sydd Dduw iachawdwri iaeth;" ac megis y'n dysgir yng air (ac *orac-lau*) Duw, darfu i'r Jebosa mawr tragicwyddol, i ryw ddoeth ddibenion, adnabyddus iddo ei hun, arfaethu ynddo ei hun, ogoneddu ei enw, egluro ei ally, a datguddio ei ddaioni, yn iachawdwriaeth tragicwyddol hil fyrthiedig *Adda*: truenus gyflwr pa rai a ragwybu efe cyn eu bod! Canys "hyspys i Dduw yw eu holl weithredoedd erioed." Y Creawdwr holl-wybodol, a wyddai y byddai plant dynion yn llwyr anffyddion, ac yn drofedd-wyr o'r bru, ac yn ganlynol, dan felldith y ddeddf, yn ddarostyngedig i farwolaeth a thrueni tragicwyddol! Ac megis y mae Duw yn sanctaidd a *chyiawn*, yn gyntal ag yn drugarog a grallawn, nid oedd bosibl iddo ef, (yn gyttunol ag anrhuddedd ei *gyfawnder*) faddeu yr holl anwireddau, dileu pechodau, a derbyn dynion i'w heddwch a'i gyfeillach, heb wneuthur iawn a boddlonrwydd i *gyfawnder*, am y pechodau a aethent heibio, a rhwymo y trofeddwyr i ddwyn ffrywthau addas ū edifeirwch, ac na fyddent wrthryfelgar ac anffyddion i'w gyfammod mwyach. Ac yn ym-maint ag nad oedd neb i'n gwaredu, neb i'n cynuorthwyo, nac un lladmerydd na meddyg-iniaeth i'w gael, ymhliith dynion, Duw er hun a ymroddodd i gymmeryd y gwair, y dienfrwyd.

waith, y gwaith rhyfeddol o achub pechaduriaid, yn ei law-ei hun, Efay xli. 13. a lix. 16. Ac efe a foddlonodd ei gyflawnder ei hun. Ac y mae efe yn foddlon er mwyn ei gyflawnder, Efay xlvi. 7r. Fe dalodd ef y dyled blin ag oedd ddyledus iddo ei hun! Gollyngodd garcharorion yn rhydd, gan addaw eu golchi, eu glanhau, a'u cymhwysio i fwynhau tragywydol ddedwyddwch gyd ag ef yn y nesfoedd. Dyma fel yr arfaethodd, ac yn gan-lynol, efe ddisgynodd o'r nesfoedd yn yr amser nodedig i wiigo natur dyn; ac felly, efe a oiododd fail o gyfeillgarwch, perthynas, a chyfathrach, a had Abraham, fel y byddai eu Harglwydd a'u Duw yn Frenin iddynt; ac fel y byddai yn gyflawn iddo, yn ol y ddeddf, i ryddhau'r etifeddiaeth, megis y gwnaeth Boaz, er mwyn Ruth, ac i ofyn a chymmeryd gwrthddrychau ei gariad i fod yn briod iddo byth. Ier. iii. 14. Hyn i gyd, a llawer mwy, a gyflawnwyd ynghnawdoliaeth Crist. Yr oedd y gair gyd a Duw erioed, sef y bwriad yn ei feddwl, a'i ewyllys ar ei gylawni yn ei amser: am hynny y dywedir, "Myfyr Arglwydd a brysuraf hynny yn ei amser," Efay ix. 22. Yr oedd efe yn prysuro diweddiad yr hen oruchwiliaeth, a sefydliad yr oruchwiliaeth newydd.

"O'r diwedd daeth y dydd; clywsm y gair, *Gorphenwyd!* Ac megis y rhynoedd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder yng Nghrist wele ddigonalwydd o bob gras wedi ei barottoi i berfffeithio i ein iachawdwriaeth: ac y mae ei galon yn agored i roddi, a'i law yn agored i gyfrannu, ac nid oes dim yn eisiau ond derbyn y rhodd! Y mae groesawd fyned at Dduw, yn y Dyn Iesu, fel gwr at ei gyfaill, ganol y nos. Diau, ni all y fawl sydd yn gweled hyn, lai'nâ mawrygu rhagorol ogoiant y Drindod: a chyd-ganu gyd a'r nesfolaidd lu, "Gogoniant i Dduw yn yr uchelder, tangnafedd ar y ddaear, ewyllys da i ddynion." O biegid, heb y Drindod, ni a fuafem yn resynol druenus ond,

ond, â'r *Drindod* gyd â ni, yr ydym yn wir gyfoethogion, yn meddiannu pob peth.—Y mae gennym y *Tad* yn gyfaill caredig. Y mae gennym y *Mab*, yn gyflawnder ac yn nerth i ni. Y mae gennym yr *Ysbryd* yn sancteiddydd, yn ddi-ddanydd, ac yn arweinydd hyd ddiwedd ein pererindod yn y byd. Ni feiddiaf si ddywedyd, fod *Trindod* yn angenrheidiol i *banfod* Duw, fel y mae rhai yn rhyfygus yn haeru: eithr mi a ddywedaf, ac yr ydwyt yn credu, fod *Trindod* yn gwbl angenrheidiol i ddatguddio Duw i etifeddion bywyd tragedwyddol. Pa le y gwelwn ni gariad Duw, ond yn y *Gwr* fu farw drosom? Pa fodd y cawn gymdeithas â Duw, ac yr addolwn ef wrth ei fodd, heb yr “*Ysbryd* sydd yn cynnorthwyo'n gwendid “ni?” Rhuf. viii. 26. Ioan iv. 14. Diau, nid oes ddedwyddwch heb faddeuant; nid oes faddeuant heb waed; nid oes waed *baeddiannol*, ond gwaed Iesu! Nid oedd boffibl i Dduw (sel Duw) farw; nid allasai dyn (sel dyn) haeddu; ond *Immanuel*, Duw gyd â ni, Duw a Dyn yn un â'u gilydd, a allasai ddioddef a haeddu, marw ac adgyfodi, a byw yn oes oesoedd! gwedi “*llyngcu angau mewn buddugoliaeth.*” Yigatfydd, y bydd *Sofiniad* yn ammen a ddichon y fath undeb fod rhwng Duw a dyn? Yabed, medd rheswm! y Duw byw mewn undeb â dyn marwol! Oh, ddaear, ddaear! clyw air yr Arglwydd; “*Y marwol hwn a wisg anfarwoldeb;*” y rhai sydd eiddo'r Arglwydd un *ysbryd* ydynt. Ac onid yw cyrph y saint yn demlau Duw? Pa saint mwy Iesu Crist yn deml Duw? Onid Duw a'i cenhedloedd? Yn ddo ei hun, cosiwrch, nid allan o hono ei hun. “*Y mae'r Tad yn byw yn of si, medd Crist, ac yr wyf si'n byw trwy'r Tad,*” Ioan vi. 57. Dyma'r Crist, dyma'r bywyd, a bregethwyd ymhlieth y cenhedloedd, a gredwyd ynddo yn y byd, a welwyd (yn wrthddrych addoliad) gan angylion, a dderbynwyd i fynni i'r nef. Gwel Act. i. 9. 1 Tim. iii. 16.

Ac onid *Daw* y gelwir ef, gan Paul, yn y san honno o'r ysigrwythur? Wele, mawr, yw dirgelwch duvioldeb! Daw yn dri, ac er hynny yn un: yn dri o Personau (neu galluedd) a'i tri yn un Daw! fel corphi, enaid, ac ysbryd, yn un dyn. Ni fyddai dyn ddim yn ddyu, pe cymmerid un o'r rhai'n oddi wrtho; felly ein *Iachawdwr*, ni fyddai'r enw yn addas iddo, oni b'ai ei fod ef yn Ddu, Mab, ac Ysbryd. Wele, gan hynny, rhaid yw bod *Drindod*! Gadewch i ni, yn y lle nefaf, ystyried y *llafad* a ddaw o gredu yn y Duw a'r Iachawdwr rhyfeddol hwn.

Yn ddiammenn, yr hwn a gredo a fydd cadweddig! nid yw unig rhag uffern, ond hefyd rhag osi marwolaeth, gan fod colyn aangan wedi ei dynnu! Y mae'r duviolion yn cyfarfod a chyfngderau lawer, yn y byd, ond yr Argiwydd a'u gwared allan o honynt oll. Ac ni a wyddom, bellach, fod Duw yn ein gwrando ni pan alwom arno; ac y trugarha wrthym: o blegid y mae efe yn perthyn i ni ac yn ein dysgu i alw arno, *Ein Tad*; ac nid yw yn gywilydd gan y *Mab* i alw'r crediawyr yn frodyr. Awn yn hyderus ato, fel gwr at ei gyfaill, gorsaeddwn ynddo, efe a orchfygodd bob gelyn, efe'u gwared o law'n bedd! Dyma nerth ein calon, "cofio i Jesu Christ, o had Dafydd, "gyfodi oddiwrth y meirw." Wele, *Hollalluog* sydyw'r *Un* a'n c'od i'r lan! Yr oedd ganddo ef *awdurdod* i roddi ei einioes i lawr, ac i'w chymmeryd hi drachefn! a'r Gallu a gyfododd Iesu, a'n cyfod iawnau trwy'r Iesu, ac iawn gesid ar ei i ddelenau. Ond, tra y byddom yn ystyried y *Drindod*, ac mor fuddiol i'n iachawdwr i aeth ydyw, na fydded i ni anghofio *Undod* y *Drindod*; eithr trwy'r cwbl dysgw'n fod yn ddilyswyr *Duwe*! Y mae Duw yn un, ac undeb y mae efe yn ei gatu. Y mae'r Personau gogoneddus, yn y *Drindod*, yn ymddyliantiedig a'n gitydd; felly, medd Christ, "Credwch hi, sy mod yn y *Tad*, a'r *Tad* yn os "furnau."

“ finiau.” Ac y mae'r *Ysbryd* yn drigianol yng Nghrist; felly, medd y prophwyd, “ *Ysbryd* doethineb a orphwys arno,” Efay xi. 2. A thra-chefn, “ *Y mae'r Arglwydd yn ei deml sanc-taidd.*” *Y mae Iehosa yn hoffi trigo gyd â dynion, sef, yn y Dyn Crist Iesu;* ac y mae Crist yn gorhwys gyd â'i bobl, Salm exxxii. 8.

Rhaid i mi gyfaddef, pa swyaf y byddwyf yn myfyrio ar y *Drindod*, mwyaf gogoneiddas y mae yn ymddangos. Ytystyr y gair *Drindod* yw, *tri yn un.* Wele, os ydyw Duw gyd â ni, y mae gennym *Dryfor* gwerthfawr; ac nid tu draw i'r môr y mae, ond yn agos attom, fel y gallom gael gafael ynddo! “ *Y mae'r gair yn agos, yr adde-wid yn agos, Duw ei hun yn agos attom ymhob peth y galwom arno!* *Pa genedl mor fawr, &c.*

Diammaeu, gellir arfer y gair *tri Pherson*, yn ddigon diniweid; etto, rhag i neb, wrth glywed am *dri yn y Duwdod* ddarlunio tri Duw, mi a arferais y gair *galluodd* i eglurhau'r ymadrodd. A sicr yw fod gan bob un o'r *tri Pherson* ei *alln*, neu awdurdod, priodol i'w enw a'i swydd; a'r cwbl yn tarddu o'r un *ffynnon*, sef y *Tad!* Yr oedd gan y Mab awdurdod i ddodi ei einioes i lawr, a'i chymmeryd drachefn, Ioan x. 17, 18. Yr oedd gan yr *Ysbryd Glân* awdurdod i ladd y neb a fynnal am gelwydd a thwyll, megis *Ananias a Saphira*, Act. v. 3, 4. Ond pwy bynnag fyddo yn gweithredu, neu ar bwy bynnag y gweithredir, eiddo Duw yw'r *gallu*, i.e., eiddo'r *Tad*, Mat. vi. 43. Dysgw'n, bellach, gydnabod ac addoli'r *Drindod* mewn *Undod*, y *Tad* yn y *Mab*, a'r *Mab* yn y *Tad*, a'r ddau yn yr *Ysbryd!* canys “ *Ysbryd* “ *yw Duw, ac y mae'n rhaid i'r sawl a'i addolant* “ *et addoli mewn ysbryd,*” sef, yn ei *Ysbryd ef*, Rhuf. viii. 9. *Un* yw Duw, a'r *Mab* ynddo, fel y bridiwydd (*muflero*) yn y pren, yn byw ar nodd y pren, heb un gwreiddyn g-wabannol. A elian fod Duw yn earu undeb, pa hani y bydd hoff gah blaen Duw.

Duw ymrannti? Y mae mewn corph dyn llawer aelod, ac mewn enaid dyn lawer synwyr, etto un yw'r enaid; pe byddai chwe' bys ar bob llaw, a chwe' bawd ar bob troed, y mae un enaid yn ddigon. Na sonir mwyach am dri gwasbanol; y mae'r cyfryw athrawiaeth yn rhoddi fain anhynod, fel udganwr anghyfarwydd; ac, yn lle cynnafino, yn dieithro'r gwirionedd, 1 Cor. xiv. 8. Ioan x. 5. Ac fe ellir dywedyd, mai dynion o feddyliau mawr am danynt eu hunain, sydd (fynychaf) yn pregethu'r cyfryw athrawiaeth! O blegid y mae dynion hunanol yn chwennych mawredd, fel y gallont syw arnynt eu hunain ac iddynt eu hunain, yr hyn sydd groes i'r ysgrythur, Marc vi. 8. ac y maent yn eiddigeddu wrth bob un a dybiont hwy ei fod yn dwyn un gronyn o'u patch oddi arnynt. Nid felly Moses, Num. xi. 29. Nid felly'r addfwyn Iesu, Mat. xx. 28. Oh, synghyd-bererinion, dysged crïst'nogion ymwadu â hwy eu hunain, ac astudio lles eu cymmydogion, megis y rhoddodd ein Harglwydd siampl i ni i'w ddilyn, Rhuf. xv. 1—4. Ioan v. 30. Ac (i lesaru mewn dull ddynol) yr oedd y Tad a'r Mab, yn astudio i foddio eu gilydd ymhob peth, Ioan v. 19, 20, 30. ac y mae'r Ysbryd yn cynorthwyo gwendid crïst'nogion gweinion, Rhuf. viii. 26.

Wele, y mae undeb y Drindod yn dwyn i'n hyffuriaeth, nerthol suggn y *maen-tynnu*, (*lead-stone*) yr hyn a rydd i ni yr addysg canlynol: megis y mae natur y *maen* yn tynnu'r nodwydd ddur atto, felly y mae cariad Duw yng Nghrist, yn denu calon y credadyn, ac yn ei ddwyn i llynw wrtho, fel nad oes dim a'i gwahana! Felly, medd Paul, “.Y mae'n ddiammeu—nid oes nac ein i oes, nac angau,” &c. &c. byth a n gwahana oddiwrth gariad Duw yng Nghrist Iesu. A pha beth a feddyliwn am grefydd y rhai a werthant Crist am swrn o arian, saig o fwyd, dâ'r byd, gweniaeth y cnewd, neu ryw eilun, ac a ddiarddelant eu brawd crïst'nogol,

erik'nogol, mor ddiachos ag y darsu i blant Jacob werthu eu brawd *Joseph*? Y mae'n debygol fod eu zel yn Iddewaidd; sef, yn fwy dros *draddodiadau* dynion nā thros wirioneddau Duw! ac nad adwaenant *gariad* yr hwn, oli wir fod, a fū farw dros yr annuwiol; ac a eiriolodd dros y *proseddwyr* a'i hoeliodd ar y pren!

Yn bummed; Gan orphen y pwnige hwn am *Undod y Drindod*, mi gaf ystyried, pwy a pha fath yw *Personau'r Drindod*. Er mwyn symud drwg-dybiau'r rhai sydd dros y gair, ac i lonyddu meddyliau terfysglyn y rhai sydd yn ammeu ei addafrwydd; ac os daw'r Iesu atom, se ostega'r dynhesti yn y man! Pa niweid a wna'r gair *tri Pherson*, tra nad ydym yn meddwl *tri gwabanol*, megis pe buasem yn *darlunio tri Duw*; eithr *tri Pherson* ardderchog yn y *Dawdod*, wedi ymbattroi i waith iachawdwriaeth? Ni ellir ystyried y matter hyn yn rhy fanwl, canys trwy ei drin a'i drafod yn fynych, y daw ein henaid yn gynnesfin a'r *dirgelwch*, ac y bydd myfyrio arno yn ffasus, ac yn ddiqdanus gennym; ie, ni a gawn fwy o foddlonrwydd nag yr oeddem yn ei ddisgwyl, megis *Moses* yn myned i edrych y berth, ac yn cael gweled Duw: neu fel *Lot llettygar*, yn llettya aifgylion yn ddiarwybod! a'r *Eunuch* yn darllain y prophwyd *Ezaias*, ac yn cael cyfarfod â *Christ* trwy hyfforddiad *Phylib*, *Act. viii. 27, &c.*

Y *Personau*, ymgysylltedig yn yr *Undod dir-gelaidd* hwn, yw y *Tad*, y *Mab*, a'r *Yspryd Glân*. A chofwn hyn, sef, fod yr enwau rhai o'r hyn yn rhoddi, nid i arwyddo dull o *Fod*, eithr *dirbod* o *weithbodu*! yn enwedig yng waith iachawdwriaeth. Wele, pwy yw'r *Tad*? Yr hwn a greodd y gwaith oedd a'r ddaear, ynghyd â'u holl luoedd hwynt; ac sydd yn gweithio pob perth yn o'i ewyllys, a'i gyngor rhag-derfynedig ei hun; yr hwn hefyd yw "Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Crist." Pwy yw'r *Mab*? Yr hwn a addawyd dan enw *Had y wraig*;

wraig, yr hwn a genhediwyd trwy'r Ysbryd Glân o Fair forwyn, a ddioddefodd dan Pontius Pilatus, &c. a elwir Gwas, o ran ei ddyndod, ac yn Arglwydd pawb oll, o ran ei Dduwdod! Efay xlii. 1. Act. x. 36. Pwy yw'r Ysbyrd Glân? Ysbyrd ac anadl y Tad a'r Mab; yr hwn a ymsymudodd ar wyneb y dyfroedd yn y greadigaeth: "Yr hwn hefyd a hafodd trwy'r prophwydi," Gen. xi. 2. Salm xxxiii. 6. a civ. 30. Efay lxi. 41. Heb. i. 2. A ydyw pob un o honynt yn berson? Yn ddiammeu eu bod: os credwn ni ddim, rhaid credu eu bod yn *dri Person*. Pa fod yr ymddengys hynny? Amlwg yw, fod yr hyn sydd briodol i berson yn cael ei briodoli i bbb un o honynt, yn yr Hen Destament a'r Newydd. Am y Tad y dywedir, "Mi a'ch cymmeraf yn bobl i mi, ac "a fyddaf yn Dduw i chwi," Ecf. vi. 7. Am y Mab, y dywedir, "Da gennaf a/neuthur dy "ewylls, O fy Nuw," Salm xl. 8. Am yr Ysbyrd, efe a ddywed ei hun, "Nei duwch i mi "Barnabas a Saul," Act. xiii. 2. Ac eilwaith dywedir, "Gwaraesun iddynt gan yr Ysbyrd "Glân, bregethu'r gair yn *Asia*," Act. xvi. 6. Wele, gan hynny, y mae'r Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Ysbyrd Glân yn Dduw: etto oes ond *un* Dduw. O blogid nid yw *Mab* ac *Ysbyrd* yn llofogi Dduw, mwy nag y mae corph, enaid, ac *Ysbyrd* yn llofogi dyn! Nid rhaid profi'r Tad yn Dduw, mwy nà pbrofi'r *beul* yn haul. Ac y mae'n amlwg, i bob enaid diragfarn, fod y *Mab* yn Dduw, o blegid ei fod yn gwneuthur "gweithredoedd y *Tad*," Ioan x. 37, 38. ac yn ddeall nag angau, Efay xxv. 8. a Tim. i. 10. Ac, heblaw amryw o bethau a ellir eu dywedyd, y mae'n brâf digonol o Dduwdod yr *Ysbyrd*, oherwydd ei fod yn chwilio'r galon, a Cor. ii. 10. ac yn rhag-synegi pethau i ddyfod, a Tim. iv. 1. ac o blegid ei fod yn *Ysbyrd* Dduw, a Cor. vi. 1. Trisi yw meddwl, fod dynion yna i arddel eu wcrif-nogion

negion, yn gwadu'r Arglwydd a'u prydodd! Ac o'r tu arall, y mae rhai sy'n ceisio ei anrhydeddu, yn tywyllu ei ogoiant, yn lle ei glodfori. *Ail Berlon*, meddynt, wedi ei genhedlu gyd â Duw! Y mae'n amhosibl i Dduw genhedlu Duw arall: canys, os darfu i Dduw genhedlu Duw, rhaid bod yr un a genhedlwyd yn llai nâ'r hwn a'i cenhedlodd! "Y mae fy Nhad yn fwy nâ myfi," medd y Mab ei hun, sef, y Dyn Iesu. Onid yw'r cysryw athrawiaeth ddisail yn waradwydd i grist-nogrwydd? Onid ydym yn rhoddi achlysur i'r *Sefniaid* fychanu crefydd Crist, ac yn attal yr Iuddewon. rhag credu? canys pa fodd y credant mewn *un* llai nâ Hollalluog? Pe medrem ni drio arfau *Paul*, a phrofi fod ein *Iesa* ni yn Fab Duw, trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, 2 Tim. ii. 8. yna y gwypai'r byd, "nad yw arfau ein milwriaeth ni gnawdol, eithr nerthol; trwy Dduw, i fwrw cestyll i'r llawr." Gadewch i ni gael Dduw ei hun yn Waredwr, ac nid ofnwn ddirmyg un gwrthwynebwr. *Dduw*, mewn natur dyn, yw'r *Iesu*. Y mae'r Tad yn arddel Mab Mair— "Hwn, eb efe, yw fy anwyl Fab, ggrandewch ef." Ac ni fedraf si ei olygu ef, megis angel, yn wahanol, oddiwrth Dduw, yn negeisiwr dros Dduw, &c. eithr, mewn modd rhyfodd, na's gall rhestru ei amgyffred, wedi ei blaenau, gan y Tad nefol, yn ei Dduwdod eñ hun, er pan ffurfiwyd ef yngiroth y Forwyn. Felly gwelwn fod y *Mab*, nid yn unig yn *Berlon* gogoneiddus, ac yn *Alla*, fel y dywedwyd, yn y Duwdod; eithr heryd, Duw ydyw, gan ei fod yn hanfod yn y Tad, Ioan vi. 57. megis y mae efe yn tystiolaethu am dano eñ hun, Ioan xiv. 11. yn gylfelyb i'r brigwydd (*musico*) sydd yn tysi mewn pren arall, heb un gwreiddyn, ond gwreiddyn y pren ag y mae efe yn tysi ynddo, fel y soniwyd eisoes. Ac impiad y natur ddynol, felly, i'r natur ddwyfol, ymherson Crist, yw sylfaen yr undeb sydd rhwng y duwiolion a

Duw, Ioan xvii. 21. Ac ar y cyfrif hynny yn ydym yn hyderu yn Nuw, ac yn arddel perthynas â Duw, fel ein Cyfathrachwr agos, ie, fel ein *Tad*, ein Priod anwyl, ein Câr a'n Cyfaill, ag y gallwn fod yn eon i fyned atto, ganol y nos, fel hanner dydd! Oh'r fath dŵs gwerthfawr yw'r *Iesu*; mwy gwerthfawr nâ'r holl fyf!

Dedwydd ydwy'n berchen ariant, dedwydd yf o dy liedd;
Dedwydd welo wen dy wyneb, tu yma a thu draw i'r bedd.

Yr un modd, tebygwn, y gellir dywedyd am yr *Yspryd Glân*; pe buasai'r *Yspryd Glân* yn hanfod gwahanol oddiwrth y *Tad*, yna y buasent yn amryw Dduwiau; sef, yn dri *Yspryd Glân*, yr hyn fydd yn ffieidd-dra i feddwl! Y mae'r *Yspryd*, gan hynny, yn y *Tad*, ac yn y *Mab*: yn ganlynol yn Berson hanfodol yn y *Drindod*, ac yn ffynnon y dwfr bywiol i eifeddion gras! ac yn Ddiddanydd i'r pereriniou tra fyddont yn y byd. Felly y mae'r tri Pherson wedi ymbarottoi i waith iachawdwriaeth: neu, fe ellir dywedyd, y mae Duw wedi addasu ei hun dan y tri eaw, *Tad*, *Mab*, ac *Yspryd*. Yn Dad, i drugarhau wrth afradloniaid; yn *Fab*, i ufuddhan i'r ddeddf, a boddoni cyfawnder; ac yn *Yspryd*, i sancteiddio'r pechadur, trwy adnewyddiad y *spryd* y meddwl, a rhoddi y *spryd* mabwyfiad. Fe ddichon fod *Tad*, *Mab*, neu *Yspryd*, yn arwyddoccau Duw, fel y mae corph, neu enaid, yn arwyddoccau dyn: 70 enaid oedd Israel, yn mudo i'r Aipht, sef cynnifer o ddyntion. Pan yr arferom amryw erfyniadau, neu pan ddywedom drachefn yr unrhyw ymadroddion, megis yn y *Litani*, Arglwydd trugarha, Crist trugarha, &c. yr un gwirthddrych fydd o flaen llygaid ein meddyliau: felly yr un Duw yr y'm yn galw arno, dan amryw ddulb o gysfarchiad; ond yr y'm yn dyblu'r geiriau, i loywi'n cof am gariad y Rhoddwr, ac i ddeffro'n calon i dderbyn y rhoddion.

Yn chwebed; Gadewch i ni yfariad, yn nesaf, pa faint a allwn ni ddisgwyl oddiwrth yr *Undod*

yn

yn Drindod? Yr ydym wedi dyfod o fewn posibl-rwydd i fod yn ddedwydd yn y mwynhad o Grist, fel Ruth ynghysfathrach *Boaz*. Y mae Duw, yng Nghrist, bellach, yn Gyfathrachwr i ni, yn Dad, yn Briod, yn Gyfaill, yn Ymddiffynydd, ac yn bob peth. Braint na's gallasem gael hawl iddi, oni buasai'r Drindod. Ac y mae'n rhaid i'r rhai na chredant athrawiaeth y Drindod, syw a marw heb ei mwynhau! Eithr yn awr, y mae Mab y dyn yn arddel ei bobl yn frodyr, a Duw yn danfon Yspryd ei Fab idd' eu calon, i lefain *Abba Dad*. Fe wna'r Drindod beth na all' iai un Person syth ei wneuthur. Yn awr y mae gwaith iachawdwriaeth yn myned ymlaen yn Hwyyddianus. Y mae'r dyled wedi ei dalu, y mae colyn angau wedi ei dynnu, y mae gras yn ymhelaethu, a phlant yr addewid yn dychwelyd dan ganu. Y llaw a osododd y sylfaen, a ddwg allan y maen-pennaf, (gatreg y nen) ac fe waeddir, *Rad, rad, iddi!* Wele, anrhaethol *lesbbod* y Drindod; y *Tad* yn arfaethu, y *Mab* yn cyflawni, yr *Yspryd Glân* yn adgenhedlu! etto, "yr un Duw yw'r hwn fydd" "yn gweithio pob peth ymhawb," 1 Cor. xii. 6. Efe yw *Alpha* ac *Omega*, dechreu a diwedd ein iachawdwriaeth, Awdwr a Pherfleithydd ein ffydd. Duw yng Nghrist yw bywyd wr holl greadigaeth. Trwy bechod Adda y buom feirw, trwy gyflawn-der Crist y'n bywheir. Heb Crist, heb Dduw, ac heb fywyd! Duw yng Nghrist yw'n gobaith, o blegid a mae yn gwared o dan y ddeddf, trwy dalu'r holl ddyled. Fe dalodd ef y dyled blin, ag oedd ddyledus iddo ei hun! *Gorffennwyd!* "Angau ia lyngwyd mewn buddugol-iaeth." Rhwygwyd y llen, y mae'r ffordd yn rhwyd at orsedd gras. "Yr Arglwydd a ym-ddyrrchafai dofturio," Esay xxx. 18. Y mae'n pechad ni yn fawr, a'n tro seddiadau yn am, etto y mae terfyn ar bechod; ond nid oes dim terfyn ar drwgaredd Duw! Y mae ei gariad efs ym- fesurol,

felurol, ei hyd, a'i led, ei uwchder, a'i ddyfnder.
 Ym mynydd yr Arglwydd y gwelir, Gen. xxii. 14.
 Edrychwn tu a Chalfaria, gwelwn Oen Duw!
 Ac onid oedd Duw, yng Nghrist, yn cymmodi'r
 byd ag ef ei hun? Wele, amheuwch ei gariad,
 os medrwch! Mi a wn fod rhai athrawon, byrr
 eu golwg, (*short-fighted*) yn dywedyd, fod Duw
 (*Dad*) yn ddig wrthym ni bechaduriaid, ac y
 buasai yn ein taflu i *uffern* bob enaid, oni fuasai
 i'r *Mab* roddi ei hun yn Ganolwr! Ond pa beth
 y mae'r apostol yn *dywedyd*? "Felly y carodd
 " Duw y byd, fel y *rheddodd* efe ei unig-anedig
 " Fab," Ioan iii. 16.—Ac eilwaith, "Yn hyn yr
 " eglurwyd cariad Duw, o blegid *danfon* o Dduw
 " ei unig-anedig Fab," 1 Ioan iv. 9.—A Phaul a
 ddywed, "A'n *Tad*, yr hwn a'n carodd," 2 Thes.
 ii. 6. "A'r rhai a adwaenant ei *gariad*, a welant
 " ei *ogoniant*; a'r rhai a welant *ogoniant* ei *iach-*
 " *awdwriaeth* a'u *clodforant* ef, ac a ymadrodd-
 " ant am ei holl *ryfeddodau*," 1 Cron. vi. 9.—Yn
 yr *iachawdwriaeth* y mae mawrhydi yr Holl-
 alluog yn ymddangos yn fwyaf gogoneddus. Nid
 yw holl *ogoniant* y greadigaeth ddim i'w gydmaru
 iddo, mwy nà goleu'r lloer i'w gyffelybu i'r
 haul! Esay lxv. 17—20. Yno y mae efe yn
 fathru ei *clynion*, megis tom yr heolydd, Esay
 x. 6. Brenim brenhinoedd yw Brenin Sion. Efe
 a fathr ei holl wrthwynebwyr yn ei ddig; ac a
 ddisgyn eu *cadernid* i'r llawr, Esay lxiii. 2, 6.
 Am hynny y gwelwyd ef yn goch ei ddillad yn
 teithio yn amlder ei rym—Y mae rhai yn meddwl
 mai gwirthddrychau ei ddiaedd, a bortreiadir yn
 y geiriau a grybwyllywyd, oedd yr *Edomiaid*, neu
 ryw genhedloedd gelynol; neu, mai prophwydol-
 iaeth ydyw am ddinestr Jerusalem. Ond, yn ol
 iaith yr ysgrythur ei hun, y mae'n ddiammau,
 mai gelynion ysprydol a feddylir, megis yn Salm.
 x. 1. Esay ix. 5. 2 Thes. i. 8. Eph. vi. 12. Dat.
 vi. 16. a xii. 7. "Ac â drygau ysprydel y mae
 rhyfel"

hyfel parhaus; sef, â'r diafol, y byd, a'r cnawd; pechod, ac angau, a'r bedd." Ni fu erioed y fath ryfel rhwng cenhedloedd y ddaear, na'r fath arfau ychwaith; mantell o ysgarlad, coron o ddrain, busl a finegr sur, croes-bren, a hoelion o ddur. Ni fu erioed y fath ddiftryw ar elynion, na'r fath fuddugoliaeth lawn! Nid thyfedd clywed am yrru cleddyfau'n sychau, canys gorchfygwyd bob gelyn! " Ha elyn, darfu am ddinystr yn dra- " gywydd!" Salm ix. 6. Capten ein iachawd-wriaeth ni a orchfygodd angau yn ei fro ei hun: am hynny, arwydd o fuddugoliaeth oedd y *gwaed* ar ei ddillad; o blegid, mewn dull cyffelybiaethol o clafaru, (*metaphor*) gwaed ei elynion ydoedd; canys ein hen ddyn ni a groeshoeliwyd; pan groes-hoeliwyd Crist, torrwyd pen pechod ar y ploccyn, fel na chaff fod yn *ben* mwyach. Diau, fod pen *Ioan fedyddiwr* ynghadw yn llaw rhagluniaeth yn rhyw le, ac a gyfodir gyd â'i gorff: eithr pechod y saint ni chyfyd yn dragywydd. Felly, gallwn ystyried croes ein Harglwydd Iesu, pan oedd ar ei ysgwydd yn myned tu a Golgotha, fel arwydd o fuddugoliaeth, mwy hynod nâ chleddyf *Golia* yn llaw *Dafydd*! Gan hynny yr oedd y cyngor yn addas, ". Ferched Jerusalem, nac wylwch o'm " plegid i, eithr wylwch o'ch plegid eich hunain, " ac o blegid eich plant." Wele, pa beth oedd hyn i gyd, ond cyflawniad o'r hyn a arfaethodd ein Tad nefol, cyn dechreu'r byd: gan hynny, gwybyddwn, mai effaith y cariad tragicwyddol yw y *Drindod*, a dresnwyd er ein mwyn ni, ddynion, ac er ein iachawdwriaeth. Dyn-ferch ein Duw tu ag attom ni, a drefnodd y Drindod mawr yn dri. Pwy bynnag a gredo hyn, a gaiff brosi fod rhyddid i'r cyslegr trwy waed Iesu, a bod Duw Abraham yn Dduw i ni, yn Dad i ni, yn Briod i ni; a bod ein iachawdwriaeth yn fwy sicr nâ dedwyddwch Adda ym mharadwys: nid oes gan satan a phechod ddim awdurdod arnom mwy. Hwy a allant ein gorthrymmu

gorthrymmu, nid ein gorchfygu; ein clwyso, ond nid ein lladd. "Y mae'n bywyd wedi ei guddio gyd â Christ yn Nuw." Y mae gennym Gyfaill galluog ac ewyllygar i'n cynnorthwyo ymhob cyfyngder; ac a allwn snyder atto; bob amser, ganol y nos fel hanner dydd. Ac y mae efe yn gorchymwyn i'w bobl ei arddel yn Briod. Ni'm gelwi mwyach *Baali*, ond ti a'm gelwi *Ife*, Hos. ii. 16. Er hynny y mae rhai crist'nogion, fel bondigion, yn dewis dywedyd, *Fy meistr*, neu *meispres*, a sefyll ymhell, fel dynion yn deall pa beth ydyw moesau da! Ond lle y byddo cariad, fe anghofir y moesau, ac fe ddeuir ymlaen, fel y wraig a ddaeth at yr Iesu, ac a gusanodd ei draed, yn nhŷ Simon y Pharisead.—Gwelwch weithian, sy mrodyr, y lleshad y mae eglwys y Duw byw yn ei gael trwy ddirgelwch y *Drindod*! ac nac ymfoddlonwn ar glywed, ond deisifwn ar ein Duw, a'n Tad nesol, i ddwyn ein henaid i'r mwynhad; fel y moliammom ef yn dragwydd. Amen.

Yn seithfed; Ond y mae on peth yn ychwaneg i'w ystyried, cyn dibennu'r matter mewn llaw: hynny yw, ar ba gyfrif yr ydym ni yn galw Iesu Crist yn Fab Duw? Pa un a'i ar gyfrif ei *rag-banfod*, wedi ei genhedlu gan y Tad, ac yn byw yno gyd ag ef; neu, o herwydd ei genhedlu trwy'r *Yspryd Glân o Fair* forwyn? Mewn perthynas i'r *rag-banfod*, a'i fod wedi ei genhedlu gan ei Dad, cyn yr holl oesoedd, mae'n ddiammeu ei fod yn *arfarthol*, ond nid yn weithredol, ne's ei genbedlu o Fair! Hyn sydd sier, fod y prophwydi, a'r prif-seintiau, ymhob oes o'r byd, yn edrych ymlaen am yr brun aedd i ddyfod, sef *Hadywraig* a addawodd Duw i 'fsligo pen y sarph. Fe gredodd Abel yn yr un hynny; fe gredodd Enoc ynddo, tanys dywedir, "Enoc a rodiodd gyd â Daw." Ac onid yw'r Iesu ei hun yn dywedyd, "Myf Mawr drws y defaid: nid oes neb yn dysfod at y Tad, ond trwol si." Fe gredodd *Esaias* ynddo, o blegid

o blegid efe a welodd ei ogoniant ef, ac a lafarodd
 am dano, ie, efe a lafarodd am dano, fel pe buasai
 wedi dysod, wedi dioddef yn dawel, fel dafad o
 flaen ei chneisiwr, ie, wedi cyfodi o'r bedd, ac
 wedi esgyn i'r nesoedd; a Dafydd a'i gwelodd yr
 un modd. Yr oedd hynny yn brawf eu bod yn
 credu yn ddiamheuol, y deuai Had y wraig, yn ol
 yr addewid, mor sicr a phe buasai'r addewid ar
 ben. Holwn ein hunain, a ydym ninnau'n credu?
 Ni a glywsm lawer am y berthynas sydd rhwng
 Duw a'i bobl: ond y mae satan yn ceisio ein
 harwain i amryfusedd, fel y collom ein golwg ar
 y berthynas! Ar sail y *gnawdoliaeth* y mae'r
 berthynas yn sefyll: gan hynny, y *Dyn Crist Iesu*,
 a genhedlwyd o Fair, yw'n *Cyfathrachwr* ni; a
Thad ein Harglwydd Iesu Grist yn *Dad* i ni,
 ynddo a thrwyddo ef. Wele, a fedrwn ni ddy-
 wedyd, gyd â *Nathaniel*, "Ti yw Mab Duw, ti
 "yw Brenin Israel?" A chyd â *Pbedr*, "Ti yw
 "y Crist, Mab y Duw byw?" Nid digon i ni
 gredu am eu bod hwy yn credu! rhaid i ni gredu
 drosom ein hunain. "Bydded genych ffydd
 "ynoch eich hunain," medd Crist, wrth ei ddis-
 gyblion. Profwn ein ffydd wrth y gair, fel pwysa
 aur mewn elorian! Y mae credadyn yn credu, am
 fod Duw yn rhoi ffydd, nid am fod eraill yn
 dywedyd felly; pc amgen, "fe fyddai'n ffydd
 mewn doethineb dynion, nid yn nerth Duw,"
 1 Cor. ii. 5.—Y Crist a aned o Fair yw'n *gobaith*
 ni. Nid yw'r *ail Person*, a genhedlodd Duw yn
 nhragwyddoldeb, allan o hono ei hun, ar ei ddelw
 ei hun, ond *person iechydnygyr*, nad oes son am
 dano yn y Bibl. Ac yn ddiau, nid yw boffbi i'r
Hollalluog genhedlu Duw arall, heb ei ddad-wneu-
 thur ei hun! "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd,"
 medd y gwrth-ddadleuwr: gwir yw, yr arfaeth a
 gyflawnwyd, "Mab a roddwyd i ni, Bachgen a
 "aned i ni." Ond, nid oes *dau* Fab, medd
Athanasius ei hun! *Unig-anedig*, medd Crist, am
 dano

dano ei hua, Ioan i. 18. Ond, medd y gwrth-ddadleuwr, Y mae son yn yr ysgrythur am ddau genhedliad! Gwir yw, y mae son am genhedliad yng nghroth y Forwyn, a chenhedliad (neu adfywiad) oddiwrth y meirw! Y naill yn perthynu i gyflawniad yr hen oruchwiliaeth, a'r llall i ddechreuaad yr oruchwiliaeth newydd, neu'r byd newydd, neu, fel y dywed *Paul*, " Y byd a " ddaw, am yr hwn yr ydym ni yn son," Heb. ii. 5. Drachefn, y mae'r gwrth-ddadleuwr yn appello at yr ysgrythur sy'n dywedyd: " Corph " a gymhwysaist i mi." Ac yn dadleu, " Rhaid " oedd ei fod ef, cyn y gallai ddywedyd selly." Y mae amlwg i bawb, oni fyddant ddeillion o'u bodd, mai ymherson y Dyn. Crist Iesu y llafarodd *Dafydd* y geiriau hynny, fel nad rhaid i mi roddi ateb yn ychwaneg iddynt. Onid yw'r gair yn dywedyd, " Pryd nad oedd dyfnder ylm cenhedlwyd?" Gwir, ond y llyriwch mai llais doethineb ydyw; ac yn ddiâu; yr oedd doethineb Duw wedi trefnu iachawdwilaeth dynion cyn creu'r byd! Neu, os mynnwch fod y geiriau yn llafar am Crist, yn bersonol, neu am ei dragywyddol genhedliad, cosiwrh hefyd, ei fod yn gardharwr, a'i gondemniu, iddo farw, ac adgyfodi, eyn ei genhedlu! yn ol ystidiolaeth y prophwyd *Esaias*. Ac at bwy y prioddir hys i gyd, ond at y Dyn Iesu?

" Y mae ysgrythur arall, a ddygir i mewn gan y gwrth-ddadleuwr, fel tyf soffaeledig, i brosi rhaghansod y Mab, a'i fod yn bersonol yn mwynhau gogoniant, gyd â'r Tad, leyn creu'r byd; sef, Ioan xvii. 5: " Gogonedda di myf gyda'chi dy hun, â'r gogoniant oedd i mi gyd â chi cyn bod y byd." — Eithri y mae'n anlwg i bob cristion synhwyrol, a diragfarn, nad ei gogoniant banfodol yr oedd Crist yn ei ddymuno, yn y weddi hon, ond i y gogoniant perthynol i'w fwydd gysryngol; sef, cael myned trwy ei ddioddefadau yn amyneddus, cyfodi oddiwrth y meirw yn fuddugoliaethus, cas-
glu'r

glu'r prynedigion o bob gwlad, wedi cymhwysio eu beneidiau, a pharottoi eu calonau i foliannu Duw a'r Oen i dragwyddoldeb, 1 Pedri, 13. fel yr arfaethodd y Tad ynddo ei hun, a'r addewid a feliodd cyn bod byd, Luc xxiv. 26. 2 Tim. ii. 19. 1 Pedri i. 11. Dat. xi. 15. a vii. 9, 10. A chofiwn, (gwedi'r cwbl) mai nid etifeddiaeth, ond rhodd ydoedd! Ioan xvi. 22. Ac y mae'r Iesu yn rhoddi yr un rhodd i'w ganlynwyr. Pa beth ydyw? Anrhydedd? mawredd? Nagô. Pa beth ynt? Gwaradwydd, a'r groes; erlidiau, a dioddefiadau, a bendith, a bywyd tragicwyddol! Phil. i. 29. Os dioddefwn gyd ag ef dros ychydig, ni a gawn deyrnasu gyd ag ef dros byth, Rhuf. viii. 17.

I ddibennu'r cwbl; nid wyf si yn gweled achos ymddadleu llawer, a gwaradwyddo ein gilydd; ac nid ymrysonem ychwaith oni b'ai dichellion satan, ac ysbryd *cynfigen!* canys yr un Duw a'r un Iach-awdwr sydd gehnym gwedi'r cwbl: eithr y mae'r dull y traethir am dano, gan rai, yn ymddangos, i mi, yn wrthun, yn anhyfryd, ac yn anyfrythurol. Hwy yn portreiau'r *Mab*, fel wedi ei genhedlu yn ngbrag ywyddoldeb, heb olygu'r gnawd-oliaeth! Minnau yn meddwl mai *Had y norai* oedd y *Mab*, wedi ei genhedlu yn arfaethol yn nhragywyddoldeb, ac yn "weitbreadol" gan yr "Ysbryd Glân o Fair forwyn;" a chan ei genhedlu o *Fair*, a'i blannu yn y *Duwdod*, y mae yn *Immanuel*, sef, yn Dduw i ni, ac yn gyntaf-aneidig ymhlieth brodyr llawer! — Mewn perthynas i rai geiriau eraill a ymrysonir yn eu cylch, ni wna eu coffa, ond dangos ein ffolineb a'n hanwybodaeth yn nigrwlch. Crist! megis gwir hun ti berson ef. Pa beth ydyw hynny? Y *Mab*, medd ynt, yn datguddio delw'r Tad. Gwir, ni addesaf fod Iesu Crist yn wir lun Person y Tad; ond, dioddefwch i mi ddywedyd, mai *Duwd* ei hunan wedd efe; pe amgen, ni fuasai yn "wir-lun," mwy nag

hag oedd y desodau a'r offrymmanu dan y ddeddf, yn wir ddelw y daionus bethau i ddyfod dan yr efengyl; nid Crist ei hun oeddynt, a'm hynny yr oeddynt yn llesg a gwau, ond Duw ei hun oedd Iesu, ac am hyony yn gadarn, Heb. i. 3. a x. 1.

Gwreiddyn yr holl ddadl yw, bod dysgedigion, ol yn ol, trwy syw amryfusedd, yn cam-dybio fod yr ysgrythurau, sydd yn profi *Darwodod Crist*, yr hyn sydd rhaid ei gredu, megis Heb. i. *Addoled holl angylion Duw ef, &c.* yn cael eu llafar agan yr Ysbryd Glân, i brofi *dragwyddol genbeddus!* Ond dychymmyg ydyw na wna ddim lles-had; fe ddiochon ddyryfisiu credadyn gwan; ond ni rydd gylsur i enaid ammheus yn dragwydd! Pa beth dal i mi seddwl fod yr ail Benson yn Ffrynd i mi, tra byddo'r *Tad*, sydd syw nág ef, yn elyn i mi? Ond, os eredaf fod y *Tad yn y Mab*, sef, yng *Nebriest Iesu*, fy Nghâr agosaf, a'm Cyfaill fyddomis; yna y gwelet y netoedd o'm mblaid, ac ni ddiochon dihellion y fall heri i mi anobethio mwyl! Beth yw'r achos fod cymniser yn cael eu gyrra i anobaith? Onid am fed satan yn eu perswadio, mai *Barnydd*, ac nid *Achubydd* yw Duw! Ond fe gaiff pawb weled, mai'r *Achubydd* yw'r *Barnydd*; canys bob barn a roddwyd i'r *Mab*, am ei Fodlyn Fab y dyn; ganddo ef y mae agoriadau nef ac usfern; ac ni chondemnia efe neb a gredo yn ddo, er cymaint eu pechodaun; ac ni swrw neb allan ag a ddel atto; canys y mae efe yn abl achub hyd yr eithaf; ac hyfrydwch ei ensid yw trugarthau! Cristion, clyw ari, ond na ddywed wrth neb, hyd oni ddelo, 2 Thes. i ro. Re aeth Duw yn dri er mwyn iacobanduriaeth! A phan orphenit y gwaith, un fydd Duw yn dragwydd, ya y corph ogoneddus fry, 1 Cor. xv. 28. Dysged Duw ni i'w adnabod, a'i garu, a'i ganlynn, hyd y diwedd. Amen.



o
r
d
o
u
a
n
a
d
n
i
i
n
n
w
d
r
a
e
f
e
a
c
e
n
a
o
i
b
a
8
n
i
2
0